Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Iau, 30 Ebrill 2020

10.30 - 12.30

Microsoft Teams

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Gareth Pierce William Callaway Nia Elias Yr Athro Jerry Hunter Meri Huws Gwilym Dyfri Jones Dr Hefin Jones Pedr ap Llwyd Dr Rhodri Llwyd Morgan Angharad Roberts Llinos Roberts Yr Athro Hywel Thomas
Sylwedyddion:	Meg Hughes, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) Lleucu Myrddin (UCMC/NUS Wales) Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd Nia Brown, Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	1.1 Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. 2.2 Datganodd Nia Elias ei bod yn aelod o Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg ers mis Mawrth 2020. 2.3 Estynnwyd llongyfarchiadau i Nia Elias ar ei phenodiad yn Is-Gyfarwyddwr dros dro ar gyfer elusen cancr gwaed (*Blood Cancer UK).*	NB i ddiweddaru'r gofrestr	Yn dilyn y cyfarfod
3. Cadarnhau penodiad y Cadeirydd	3.1 Adroddodd Dr Dylan Phillips ar broses penodi Cadeirydd y Coleg yn sgîl gohirio cyfarfod y Bwrdd Cyfarwyddwyr a oedd i'w gynnal ar 25 Mawrth 2020. 3.2 Gyda chaniatad y Bwrdd rhannwyd argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant drwy ohebiaeth e-bost ac ar 23 Mawrth cytunwyd yn unfrydol i benodi Gareth Pierce fel Cadeirydd y Coleg. 3.3 Estynnwyd llongyfarchiadau i Gareth Pierce a diolchodd yntau i'r Bwrdd am ymddiried y Gadeiryddiaeth iddo. 3.4 Nodwyd diolch i'r cyn-Gadeirydd, Dr Haydn E Edwards, am ei waith yn cryfhau llywodraethiant y Coleg. Bydd cyfle i ddiolch iddo'n ffurfiol maes o law.		

4. Adroddiad y Prif Weithredwr (Eitem 4)	4.1 Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar weithgareddau diweddar a oedd wedi ei baratoi cyn yr argyfwng presennol. **Ysgrifennydd y Coleg** 4.2 Adroddwyd bod Catherine Rees, Ysgrifennydd y Coleg, wedi ymddeol ar 8 Ebrill 2020. Bydd cyfle i ddiolch iddi hithau'n ffurfiol maes o law hefyd. 4.3 Hysbyswyd y Bwrdd gan y Prif Weithredwr nad yw'n fwriad penodi yn lle Catherine Rees. Mae Dr Dylan Phillips yn parhau i weithredu fel Ysgrifennydd ar hyn o bryd a chyflwynir gwybdoaeth maes o law ynghylch y trefniadau ar gyfer y dyfodol o ran cyfrifoldebau Catherine Rees. **Llythyr Grant 2020/21** 4.4 Adroddwyd bod y Llythyr Grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21 yn adlewyrchu'r trafodaethau cyn yr argyfwng presennol. 4.5 Adroddwyd bod dau amrywiad i Lythyr Grant y llynedd (2019/20) a oedd yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer gweithredu agweddau o'r cynllun Addysg Bellach a Phrentisiaethau. **Cyfarfodydd cynllunio** 4.6 Adroddwyd bod cyfarfodydd cynllunio yn yr arfaeth gyda phrifysgolion a bod gwariant mewn lle fel y cynlluniwyd. 4.7 Adroddwyd ar yr heriau sy'n parhau wrth gefnogi cynlluniau addysg bellach.		

	Trafodaeth 4.8 Yn ystod y drafodaeth nodwyd gofid y Bwrdd yng nghyd-destun yr argfwng presennol y gallai amodau cyllido'r Coleg newid. Nododd y Prif Weithredwr ei fod mewn cysylltiad agos gyda Llywodraeth Cymru a'i fod yn llawn ymwybodol o'r heriau posibl. Sicrhaodd y Bwrdd bod cynllun ar waith gan y swyddogion i warchod gwaith y Coleg. 4.9 Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch anghenion y sector iechyd adroddwyd bod trafodaeth wedi ei gynnal gyda HEIW ychydig ddyddiau cyn yr argyfwng a bydd cyfle i ail-afael yn y trafodaethau ar amser priodol. **Diweddariadau cyffredinol ar waith y Coleg** 4.10 Derbyniwyd adroddiadau ysgrifenedig mewn perthynas â Marchnata; Hyfforddiant Academaidd a Datblygu Staff; *Gwerddon* a phrosiectau cyhoeddi eraill; Cynllun Darlithwyr Cysylltiol; Cynllun Cymraeg Gwaith; Gwasanaethau Gwybodaeth; Gweithgareddau a Phrosiectau Cydweithredol; a'r Gymraeg fel pwnc er gwybodaeth.		
5. Argyfwng Covid-19	5.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr grynhoad o'r papur a gylchredwyd ar ymateb y Coleg i argyfwng Covid-19 a oedd yn cynnwys cyfrifoldeb y Coleg dros ei staff, cenhadaeth a'i sefyllfa ariannol. 5.2 Adroddodd y Prif Weithredwr ar brofiad y Coleg eisoes yng nghyd-destun modiwlau cydweithredol, dysgu cyfunol ac o bell a allai fod o gymorth i'r sector Addysg Uwch. *Ar y pwynt hwn ymunodd Dr Cliona O'Neill.*		

	Profiadau aelodau'r Bwrdd 5.3 Adroddwyd ar brofiad y sector Addysg Uwch gan gynnwys: • Anhawsterau prifysgolion ledled y Deyrnas Unedig i ymdopi â'r argyfwng • Addasu a chefnogi gweithio ar-lein i staff a myfyrwyr • Paratoi myfyrwyr i raddio eleni • Paratoi myfyrwyr israddedig i weithio yn y sector GIG yn gynnar er mwyn cefnogi'r argyfwng • Cefnogi'r argyfwng wrth ganfod brechlyn a chynhyrchu peririannau anadlu • Risgiau ail-agor campws • Myfyrwyr rhyngwladol • Paratoi cynlluniau ar gyfer dysgu ar-lein a derbyn myfyrwyr yn ôl yn raddol ar gyfer 2020/21 • Trafferthion o fewn y sector eisoes felly cwtogi cyrsiau a lleihau'r arlwy yn anochel 5.5 Adroddwyd ar ddealltwriaeth y Cyngor Cyllido (HEFCW) o'r sefyllfa: • Bod cyhoeddiad yn yr arfaeth ynghylch sefydlogi recriwtio myfyrwyr 2020/21 5.6 Adroddwyd ar y sector gwirfoddol: • Bod angen cofio bod unigolion o fewn cymuned y Coleg mewn sefyllfaoedd heriol wrth hunan ynysu tan fod brechlyn • I gofio bod angen cefnogaeth Iechyd Meddwl ar staff y Coleg 5.7 Adroddwyd ar y sector Addysg Bellach:		

	• Bod y dysgwyr cyrsiau galwedigaethol methu cwblhau eu cyrsiau oherwydd eu bod yn rhai ymarferol. • Bod trefniadau ar waith i flaenoriaethu cwblhau hyfforddiant • Cefnogi iechyd meddwl staff yn flaenoriaeth • Y bwriad i ddysgu yn rhannol o bell ac yn gyfunol • Nad oes modd cynllunio dysgu wyneb yn wyneb tan fis Ionawr o leiaf • Bydd Cymraeg i Oedolion yn dysgu o bell • Efallai bydd hanner dosbarthiadau i mewn am ran o'r wythnos tra mae'r hanner arall o bell • Darpariaeth dwyieithog yn ganolog i'r cynllunio. **Trafodaeth** 5.8 Trafodwyd y ffaith bod y sector Addysg Uwch mewn sefyllfa cyllido heriol hyd yn oed cyn yr argyfwng iechyd presennol. Roedd yn bosibl y gallai 20% o gyllideb y sector gael ei effeithio. Nododd Dr Cliona O'Neill, ar ran y Cyngor Cyllido, y byddai UUK yn blaenoriaethu ceisiadau cyfansymiol prifysgolion o gronfa £1.1 biliwn. Byddai diffyg yn anochel. 5.9 Trafodwyd y byddai'r Coleg yn sensitif i sefyllfaoedd partneriaid cyn ychwanegu beichiau arnynt.. Gall y Coleg fod yn gefnogol ac yn hyblyg yn ei dulliau darparu yn ogystal ag ateb y galw newydd ac angen newydd. 5.10 Trafodwyd ei fod yn bwysig i fyfyrwyr cwblhau diwedd y flwyddyn academaidd a'u bod yn gallu graddio eleni. Crybwyllwyd yr angen i'r ddarpariaeth Gymraeg fod mewn lle ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd Ategodd y Deon y byddai modd i drafod hyn ym Mwrdd Academaidd 20 Mai 2020.	Trafodaeth am y ddarpariaeth Gymraeg yn y Bwrdd Academaidd nesaf	20 Mai 2020 Ar unwaith petai angen

	5.11 Trafodwyd rôl y Coleg i gefnogi recriwtio 2020/21. 5.12 Adroddwyd ar moratoriwm ar gynigion di-amod ar hyn o bryd ledled Prydain. Nodwyd pryder am niferoedd myfyrwyr gan y bydd rhai yn dewis gohirio. O ganlyniad bydd cyllidebau yn cael eu heffeithio. 5.13 Cytunwyd ei fod yn gyfrifoldeb ar y Bwrdd i warchod cyllideb y Coleg yn sgîl lleihad mewn gweithgaredd yn y sector. Er difrifoldeb y sefyllfa crybwyllwyd bod angen gwarchod profiad y myfyriwr. Nododd y Prif Weithredwr bod cyfarfodydd wedi'u trefnu gyda phrifysgolion i ganfod sut y gellir eu cynorthwyo. Bydd modd symud i ddulliau gwahanol o ddarparu, gyda'r Gymraeg yn greiddiol, yn y tymor byr ac yn barhaol. Sicrhawyd y Bwrdd bod y swyddogion mewn cyswllt agos gyda Llywodraeth Cymru a phetai lleihad yn y gyllideb byddai modd ymgynghori gyda'r Bwrdd ar unwaith. Nodwyd y bwriad i greu cronfa argyfwng i gynorthwyo'r prifysgolion o unrhyw gyllid a oedd yn weddill. Cytunwyd i gynnal trafodaeth pellach ar gyllid yng nghyfarfod 24 Mehefin 2020.	Ymgynhori gyda'r Bwrdd petai cyllid yn cael ei dorri Trafodaeth ar gyllid yn y Bwrdd nesaf	 24 Mehefin 2020
6. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 27 Tachwedd 2019 **(Eitem 6)**	6.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2019. *Ar y pwynt hwn ymadawodd Dr Cliona O'Neill.*		
7. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod caeëdig 27 Tachwedd 2019 **(Eitem 8)**	7.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod caeëdig a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2019. *Ar y pwynt hwn ymadawodd Dr Rhodri Llwyd Morgan ac Angharad Roberts.*		

8. Pwyllgor Archwilio a Risg **(Eitem 9)**

Cyffredinol **(Eitem 10)** **(Eitem 10i)**	9.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2020. 9.2 Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 15 Ionawr 2020, gan Pedr ap Llwyd, Cadeirydd y pwyllgor: • Nododd bod cwmni Sterling, sy'n monitro buddsoddiadau'r Coleg, yn canmol buddsoddiadau doeth y Coleg. Ond, nododd, ers hynny bod gwerth y buddsoddiadau wedi gostwng oherwydd yr argyfwng presennol. • Nododd bod proses caffael priodol wedi digwydd i adolygu cyflogau'r Uwch Reolwyr. Gwnaed penodiad ond mae'r broses wedi ei ohirio tan fis Mehefin yn sgîl trosglwyddo cadeiryddiaeth y Coleg. **Cyllideb 2020/21** 9.3 Derbyniwyd cyllideb y Coleg ar gyfer 2020/21.		
10. Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant	**Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant** 10.1 Cyflwynodd Dr Dylan Phillips adroddiad llafar ar waith y pwyllgor: 10.2 Nododd bod y pwyllgor wedi bod yn rhan o benodi'r Cadeirydd newydd (gweler eitem 3) a gweithgareddau eraill. **Sgiliau'r Bwrdd** 10.3 Nodwyd bod Dr Haydn Edwards wedi asesu sgiliau'r Bwrdd ac y bydd ei adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y pwyllgor. **Llefydd gwag ar y Bwrdd**		

(Eitemau 11i a 11ii)	10.4 Adroddwyd y bydd pedwar lle gwag ar y Bwrdd yn ystod y 18 mis nesaf gan gynnwys lle yn sgîl penodiad Gareth Pierce fel Cadeirydd. **Cofnodion y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant** 10.5 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2019 a 4 Chwefror 2020.		
11. Bwrdd Academaidd **(Eitem 12)**	**Bwrdd Academaidd** 11.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2020. 11.2 Cafwyd crynodeb o brif bwyntiau cyfarfod 7 Chwefror 2020, gan y Deon, Dr Hefin Jones. **Cynllun Strategol – Grantiau Pynciol** 11.3 Adroddwyd mai'r bwriad oedd gwahanu'n grwpiau yn y cyfarfod nesaf i drafod strategaeth grantiau pynciol. Ond ni fydd hyn yn bosibl mwyach gan y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal dros Microsoft Teams. **Agenda'r cyfarfod nesaf** 11.4 Adroddwyd mai'r bwriad yn y cyfarfod nesaf oedd trafod addysg cyfrwng Cymraeg yn y sefyllfa cyfredol gyda mewnbwn gan y canghennau, myfyrwyr a'r prifysgolion. **Iechyd Meddwl**		

	11.5 Adroddwyd ar bwysigrwydd cadw golwg ar iechyd a lles myfyrwyr a staff yn arbennig yn ystod y cyfnod heriol hwn. **Taith y Deon** 11.6 Adroddwyd na fyddai modd gorffen taith y Deon eleni gyda'r gobaith o'i gwblhau yn y flwyddyn academaidd nesaf. **Adnoddau newydd** 11.7 Adroddwyd bod adnoddau newydd wedi eu lansio ar Porth y Coleg i gefnogi disgyblion fydd yn mynd i flwyddyn 12 a myfyrwyr sy'n trosi i brifysgol. **Cyfarfodydd cangen** 11.8 Adroddwyd bod y swyddogion yn cynnal cyfarfodydd cangen er mwyn gweld beth sy'n digwydd ar lawr gwlad. *Ar y pwynt hwn ymadawodd yr Athro Jerry Hunter.*		
12. Bwrdd Strategol ôl-16 **(Eitem 13)**	**Cofnodion Bwrdd Strategol ôl-16** 12.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Strategol ôl-16 a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2020. 12.2 Cafwyd crynodeb o brif bwyntiau cyfarfod 11 Mawrth 2020, gan Meri Huws, Cadeirydd y pwyllgor. 12.3 Adroddwyd ar drafodaethau ynghylch data, cyflogwyr a deall anghenion sgiliau. **Llysgenhadon** 12.4 Adroddwyd bod llysgenhadon addysg bellach a		

	phrentisiaethau wedi'u penodi. **Heriau cyllido** 12.5 Adroddwyd ar yr her gyllidol a'r angen am adnoddau i gynnal ac ehangu'r ddarpariaeth yn y sector. Adroddwyd ymhellach bod y Coleg yn parhau i gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y gwaith. **Cytundebau mentora** 12.6 Adroddwyd y cynhaliwyd cyfweliadau cytundebau mentora Addysg Bellach ar 22 Ebrill 2020.		
13. Materion Cyfansoddiadol	**Cyfarfod Blynyddol (y Llys)** 13.1 Adroddwyd bod Cyfarfod Blynyddol y Coleg a oedd i'w gynnal ar 24 Mawrth 2020 wedi'i ohirio oherwydd y sefyllfa bresennol. 13.2 Cytunwyd i ail-drefnu'r cyfarfod ar Microsoft Teams yn ystod mis Mai neu Mehefin 2020. 13.3 Adroddwyd bod y Cynulliad Blynyddol a oedd i'w gynnal ar 24 Mawrth 2020 yn ogystal wedi'i ohirio tan flwyddyn nesaf.		
14. Llythyr Grant 2020/21 **(Eitem 15)**	14.1 Derbyniwyd Llythyr Grant y Coleg gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21. 14.2 Nodwyd bod cynnydd bychan i gyllid Addysg Bellach a bydd angen mwy o adnoddau yn y dyfodol.		
15. Cynllunio Academaidd	15.1 Cyflwynwyd argymhellion ar ddyraniadau Grantiau Pynciol a Grantiau Sbarduno ar gyfer 2020/21 gan Dr		

(Eitem 16)	Dylan Phillips ac fe'u derbyniwyd.		
16. Materion y Cadeirydd	16.1 Nid oedd materion gan y Cadeirydd i'w nodi.		
17. Dyddiad y cyfarfod nesaf	17.1 Nodwyd dyddiad cyfarfod nesaf y Bwrdd: • 24 Mehefin 2020: Trefniadau i'w cadarnhau. 17.2 Diolchwyd Osian Rhys am gyfieithu ar y pryd.		